**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

**BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Tachwedd, gofynnwyd i mi am awgrym CLA Cymru ynghylch diwygio'r Bil i gynnwys sylwadau ysgrifenedig yn Atodlen 8 a 10 i Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Fel yr esboniais ar y pryd, rwy'n cefnogi'r awgrym. Yn ddelfrydol, pe baem yn diwygio deddfwriaeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, mae hwn yn fater y byddem wedi ystyried ei gynnwys.

Fodd bynnag, gan mai Bil cydgrynhoi yw hwn, rwy'n cydnabod y byddai'n golygu newid o'r sefyllfa gyfreithiol bresennol ac yn un y gallai rhai ystyried yn fwy na mân newid technegol. Felly, byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor ar hyn ac a fyddai'n briodol i'r broses o gydgrynhoi cyfraith yr amgylchedd hanesyddol gynnwys y newid hwn.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.